


# Y porth perffaith ar gyfer castell prydfferth



## Llun

Y gatiâu haearn-gyr newydd  
yng Nghastell Llansteffan.

## Does ðim gwaðu'r ffaith fod Castell Llansteffan yn un o'r manau mwyaf trawiadol yng Nghymru.

Ar benrhyn uwch cefn gwlad ffrwythlon Sir Gâr a chyda golygfeydd eang dros wastadeddau tywod aber afon Tywi, roedd ei safle strategol wedi'i wneud yn destun ymladd am ganrifoedd.

Mae olion y castell hefyd yn arwyddocaol. Cafodd astell pren gwreiddiol Llansteffan ei ddisodli'n raddol gan adeilad carreg wrth i

arglwyddi Eingl-Normanaidd y Mers a llywodraethwyr brodorol Deheubarth (de-orllewin Cymru) ymrafael i'w berchnogi. Mae'r porthdy deudwr, a godwyd tua 1280, yn cadw'i fawredd.

Y Cymry oedd yn dal y castell yn ystod rhyfel annibyniaeth Owain Glyndŵr ond aeth yn y pen draw i ddwylo Coron Lloegr. Yn niwedd y bymthegfed ganrif, rhoddodd y Brenin Harri VII y castell i'w ewythr a'i warcheidwad, Siasper Tudur, iarll Penfro.

Tua'r adeg yma y caewyd y porthdy canoloesol er mwyn creu rhagor o ystafelloedd byw. Ychwanegwyd mynedfa lai, symlach wrth ei ochr a thrwy'r porth Tuduraidd yma y byddwch yn mynd i mewn i'r castell heddiw.

Gan wethio'n agos gyda pherchennog y castell, Marian Evans, comisiynodd Cadw yr arlunydd Rubin Eynon a'r gof Glen Adams i greu pâr o gatiâu newydd ar gyfer y fynedfa. Ein cyfarwyddyd oedd 'buddiol yn ogystal â phrydfferth' — roeddem eisiau i'r gatiâu ddiogelu'r castell a'i gadw ynghau yn y nos ond hefyd i adlewyrchu a dathlu'r cyfnod Tuduraidd yn hanes Llansteffan.

Daeth ysbrydoliaeth yr artistiaid o waith metel o'r cyfnod, megis y gatiâu haearn-gyr yng Nghadeirlan Chichester, gyda'u patrymau ailadroddus a'r pinnau a'r rhybedi sy'n eu cadw yn eu lle. Chwiliwch am y placiau efydd bychain gyda symbolau sydd ar arfbais Siasper Tudur, gan gynnwys gwennol ddigoes.

Gobeithio y bydd ein gatiâu newydd yn eich croesawu, yn eich ysbrydoli ac yn gwneud argraff arnoch — yn union fel y byddai tywysog Cymreig, un o arglwyddi'r Mers neu uchelwr Tuduraidd wedi gobeithio yn eu dydd!

## Chwith

Safle prydfferth Castell Llansteffan, Sir Gaerfyrddin.

